**Atodiad A**

**Ymateb**

**Os nad ydym wedi darparu digon o le i'ch atebion, cyflwynwch eich atebion ar ddalen ar wahân, gan nodi rhif y cwestiwn yn glir.**

**Pori anghyfreithlon**

Yn syml, pori anghyfreithlon yw pan mae perchnogion anghyfrifol boed hynny'n fwriadol neu drwy esgeulustod yn gadael i'w ceffylau bori ar dir lle nad oes ganddynt ganiatâd y perchennog i wneud hynny neu os yw'r caniatâd hwnnw wedi'i dynnu'n ôl a bod perchennog y ceffylau'n gwrthod eu symud.

| |
|---|
| **Cwestiwn 1**: *Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad hwn o PORI ANGHYFREITHLON. Os nad ydych chi'n cytuno, beth sydd ar goll a sut y byddech chi'n diffinio'r term pori anghyfreithlon?*<br><br>Ydym, rydym yn cytuno â'r diffiniad o bori anghyfreithlon. |

**Gadael ceffylau a merlod**

Gadael ceffylau a merlod yw'r term a ddefnyddir ar gyfer y rhai sy'n rhyddhau eu ceffylau i dir heb unrhyw fwriad o'u hawlio'n ôl.

| |
|---|
| **Cwestiwn 2**: *Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad hwn o GADAEL CEFFYLAU A MERLOD. Os nad ydych chi'n cytuno, beth sydd ar goll a sut y byddech chi'n diffinio'r term gadael ceffylau a merlod?*<br><br>Ydym, rydym yn cytuno â'r diffiniad o adael ceffylau a merlod. |

**Profiad o'r broblem**

**Cwestiwn 3**: *Ydych chi wedi dod ar draws achosion o bori anghyfreithlon / gadael ceffylau a merlod yn eich ardal chi?*

*Ydym*

*Os ydych, nodwch sut mae'r achos(ion) wedi effeithio arnoch chi a'r ardal o'ch cwmpas.*

Mae profiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys:

1. **Difrod i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)** – Cafodd tîm monitro ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd achosion o bori anghyfreithlon ar forfa yn yr ACA yn haf 2012. Roedd y morfa yn yr ardaloedd hyn wedi dirywio ac oherwydd gor-sathru a gorbori gan geffylau ni lwyddodd y safleoedd i gyrraedd statws cadwraeth ffafriol (yn enwedig morfa'r Bynie ger Llanelli). Mae'n ofynnol yn ôl y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb Cyngor 92/43/EEC ar Warchod cynefinoedd naturiol a phlanhigion ac anifeiliaid) a rheoliadau trosi fod mesurau cadwraeth yn cael eu sefydlu ar gyfer ACAoedd sy'n cyfateb i'w gofynion ecolegol a bod camau priodol yn cael eu cymryd i osgoi dirywiad ac aflonyddu arwyddocaol ar y mathau o gynefinoedd a'r rhywogaethau y mae'r ACA ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) wedi cael eu dynodi o'u herwydd.

2. **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)** – O bryd i'w gilydd mae merlod/ceffylau wedi cael eu rhoi, heb ganiatâd, ar nifer o SoDdGA yn ne Cymru. Os yw'r ddaear yn ddigon sych, y broblem allweddol yw diffyg rheolaeth dros amseriad y pori a gall hynny arwain at darfu ar adar sy'n nythu; gall ddifrodi nodweddion pwysig yn enwedig yn y gaeaf, gyda gor-sathru lleol. Y cynefin yr effeithir arno gan mwyaf yn ne Cymru yw glaswelltir corsiog y maes glo, sydd fel arfer yn sychach yn yr haf nag yn y gaeaf wrth i'r lefel trwythiad godi a gostwng. Ein hargymhelliad o ran glaswelltir corsiog felly yw pori ysgafn yn yr haf gan geffylau a/neu wartheg ond mae pori'r safleoedd hyn yn y gaeaf yn niweidiol fel arfer. Mae glaswelltir corsiog yn dda i fioamrywiaeth ond mae'n aml yn edrych yn 'flêr' ac nid yw'n dir fferm gwerthfawr felly mae tuedd iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer pori anghyfreithlon.

3. Gall presenoldeb pori anghyfreithlon neu ferlod/ceffylau wedi'u gadael atal porwyr dilys rhag troi eu merlod nhw allan.

4. Mewn 2 achos diweddar ar SoDdGA yn ne Cymru, nid effeithiwyd ar nodweddion arbennig y safle gan fod y sefyllfa wedi cael ei datrys yn gyflym, ond gallai difrod tymor hir fod wedi cael ei achosi i'r nodweddion pe na bai'r broblem wedi cael ei datrys yn gyflym. Ffactor allweddol yma oedd fod gan Mark Goulding, Swyddog Troseddau Bywyd Gwyllt a'r Amgylchedd Rhanbarth y De, brofiad blaenorol helaeth o ddelio â merlod/ceffylau sydd wedi'u gadael a'i fod wedi gallu trefnu 2 gyfarfod gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i fynd i'r afael â'r broblem.

**Fframwaith Deddfwriaethol**

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth sydd ar gael i awdurdodau gorfodi ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r broblem o bori anghyfreithlon a gadael ceffylau a merlod.

Nodir mai awdurdodau gorfodi fydd yn y sefyllfa orau i ymateb i'r cwestiynau ar ddeddfwriaeth oherwydd eu profiad. Fodd bynnag, rydym hefyd yn croesawu ymatebion gan unigolion a rhanddeiliaid eraill sydd â gwybodaeth am pryd y defnyddiwyd y ddeddfwriaeth neu a hoffai fynegi eu barn ar y ddeddfwriaeth bresennol.

**Deddf Anifeiliaid 1971**

Yn ôl Adran 7 o Ddeddf Anifeiliaid 1971, os bydd da byw (gan gynnwys ceffylau) yn crwydro ar unrhyw dir nad yw o dan reolaeth unrhyw unigolyn, gall deiliad y tir ei gadw cyn belled â'i fod yn hysbysu'r heddlu a'r perchennog, os yw'n hysbys, ar ôl 48 awr. Pan fydd yr anifail wedi'i gadw am o leiaf 14 diwrnod, gall yr unigolyn sy'n ei gadw ei werthu mewn marchnad neu arwerthiant oni bai ei fod yn destun achos i'w ddychwelyd neu hawliad am iawndal. Gall Adran 7 o'r Ddeddf hon gael ei defnyddio gan dirfeddianwyr cyhoeddus a phreifat, ffermwyr, cominwyr ac ati.

**Cwestiwn 4**: *Ydych chi wedi defnyddio Adran 7 o'r Ddeddf Anifeiliaid (neu'n gwybod am achos lle y cafodd ei defnyddio) i ddod o hyd i ateb i'r broblem o bori anghyfreithlon / gadael ceffylau a merlod ac, os felly, a gafwyd canlyniad effeithiol?*

*YDW …………*

*NAC YDW …………...*

*DATRYSWYD Y BROBLEM YN RHANNOL ……………………*

*Ddim yn berthnasol*

*Os ydych chi wedi ateb 'Nac ydw' neu 'Datryswyd y broblem yn rhannol', nodwch beth oedd y problemau, pam na lwyddwyd i ddatrys y broblem yn llawn a beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i ddarparu ateb priodol?*

**Deddf Lles Anifeiliaid 2006** – Mae Adran 9 yn rhoi dyletswydd ar yr unigolyn sy'n gyfrifol am yr anifail i ddiogelu ei les. Bydd unigolyn yn cyflawni trosedd os na fydd yn cymryd camau rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i sicrhau bod anghenion anifail y mae'n gyfrifol amdano'n cael eu diwallu i'r graddau sy'n ofynnol gan arferion da.

Mae Adran 3 yn nodi'n glir mai'r perchennog yw'r unigolyn cyfrifol bob amser, ond mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar unigolyn sy'n gyfrifol am yr anifail dros dro neu'n barhaol, er nad ef yw'r perchennog o reidrwydd. Rhaid i'r unigolyn hwnnw ddiogelu lles yr anifail hefyd. Mae'n drosedd i unigolyn sy'n gyfrifol am anifail adael iddo ddioddef yn ddiangen. Mae Adran 4 yn amlinellu'r diffiniad o drosedd yn ymwneud â dioddef diangen.

**Cwestiwn 5**: *Ydych chi wedi defnyddio unrhyw rai o'r darpariaethau o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (neu'n gwybod am achos lle y cawsant eu defnyddio) i ddod o hyd i ateb i'r broblem o bori anghyfreithlon / gadael ceffylau a merlod ac, os felly, a gafwyd y canlyniad gofynnol?*

*YDW …………*

*NAC YDW ………..*

*DATRYSWYD Y BROBLEM YN RHANNOL ……………………*

*Os ydych chi wedi ateb 'Nac ydw' neu 'Datryswyd y broblem yn rhannol', nodwch beth oedd y problemau, pam na lwyddwyd i ddatrys y broblem yn llawn a beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i ddarparu ateb priodol?*

*Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn rhoi 'dyletswydd' ar y tirfeddiannwr/meddiannydd i sicrhau lles anifail/anifeiliaid. Mae'n gallu cymryd amser hir i ganfod pwy yw'r perchennog a gall olygu costau sylweddol i'r tirfeddiannwr/meddiannydd o ran sicrhau lles anifeiliaid sydd wedi cael eu gadael. Gall cost gosod microsglodion fod yn ddrud, yn amrywio o £20 i £60 yr anifail, sy'n gallu bod yn fwy na'r swm a godir drwy werthu'r anifail.*

**Cwestiwn 6**: *A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar y darpariaethau sydd ar gael o dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid a all helpu Llywodraeth Cymru i ddarparu ateb i'r broblem o bori anghyfreithlon / gadael ceffylau a merlod? Rhowch fanylion.*

Ddim yn berthnasol

**Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009**

Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob ceffyl gael pasbort a gyhoeddwyd gan Gorff Cyhoeddi Pasbortau (PIO) cymeradwy. Os na fydd gan geffyl basbort, bydd y perchennog yn cyflawni trosedd. Ers 1 Gorffennaf 2009, rhaid i bob ceffyl sy'n cael pasbort newydd gael microsglodyn (a roddir yn y ligament gwegilog gan filfeddyg) sy'n cysylltu'r ceffyl â'i basbort.

**Cwestiwn 7**: *Ydych chi wedi defnyddio darpariaethau o dan Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009 (neu'n gwybod am achos lle y cawsant eu defnyddio) i ddod o hyd i ateb i'r broblem o bori anghyfreithlon / gadael ceffylau a merlod ac, os felly, a gafwyd y canlyniad gofynnol?*

*YDW …………*

*NAC YDW …………..*

*DATRYSWYD Y BROBLEM YN RHANNOL ……………………*

*Os ydych chi wedi ateb 'Nac ydw' neu 'Datryswyd y broblem yn rhannol', nodwch beth oedd y problemau, pam na lwyddwyd i ddatrys y broblem yn llawn a beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i ddarparu ateb priodol?*
*.*

Ddim yn berthnasol

**Cwestiwn 8**: *A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar y darpariaethau sydd ar gael o dan Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009 a all helpu Llywodraeth Cymru i ddarparu ateb i'r broblem o bori anghyfreithlon / gadael ceffylau a merlod? Rhowch fanylion.*

Ddim yn berthnasol

Un mater a nodir yn aml gan y rhai sy'n gorfodi Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009 yw'r ffaith nad oes modd adnabod llawer o'r ceffylau a merlod sy'n pori'n anghyfreithlon neu sydd wedi'u gadael. Er gwaethaf y gofyniad bod rhaid i bob ceffyl neu ferlen gael microsglodyn ers 1 Gorffennaf 2009, nid oes modd adnabod llawer o'r ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon, felly mae'n gallu bod yn anodd iawn dod o hyd i'r perchnogion.

**Cwestiwn 9**: *Rhowch eich barn ar sut y gellir datrys y broblem hon.*

Un awgrym yw edrych ar wir gost datrys materion gadael anifeiliaid yn erbyn y gost o ddarparu gwasanaeth gosod microsglodion am ddim. Efallai y byddai'n dda o beth treialu hynny mewn ardaloedd lle mae'r broblem yn achosi anawsterau ar hyn o bryd. Er na wnaiff ddatrys y broblem yn llwyr, efallai, gallai helpu i leihau'r achosion o adael anifeiliaid. Opsiwn arall fyddai annog gosod microsglodyn yn gynnar mewn ebolion a darparu pasbortau iddynt yn ifanc – cynnig pris gostyngol (50% dyweder?) am osod microsglodyn mewn ebolion o dan 4 mis oed sy'n dal i sugno – gallai hyn ostwng y nifer o ebolion wedi'u diddyfnu sy'n cael eu gwerthu fesul grŵp i berchenogion newydd heb unrhyw fodd o'u hadnabod, a'u defnyddio wedyn fel ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon.

**Deddf Priffyrdd 1980 –** Mae Adran 155 yn ei gwneud hi'n drosedd i geidwad anifail adael iddo grwydro i briffordd.

**Cwestiwn 10**: *Ydych chi wedi defnyddio darpariaethau o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 (neu'n gwybod am achos lle y cawsant eu defnyddio) i ddod o hyd i ateb i'r broblem o geffylau rhydd neu wedi'u gadael yn pori'n anghyfreithlon ac, os felly, a gafwyd y canlyniad gofynnol?*

*YDW …………*

*NAC YDW …………..*

*DATRYSWYD Y BROBLEM YN RHANNOL ……………………*

*Os ydych chi wedi ateb 'Nac ydw' neu 'Datryswyd y broblem yn rhannol', nodwch beth oedd y problemau, pam na lwyddwyd i ddatrys y broblem yn llawn a beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i ddarparu ateb priodol?*

Ddim yn berthnasol

**Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 –** Mae Adran 79(1) (f) yn nodi bod unrhyw anifail a gedwir mewn man neu fodd sy'n niweidiol i'w iechyd neu'n niwsans cyfreithadwy o dan y Ddeddf. Os bydd awdurdod lleol o'r farn bod niwsans statudol yn bodoli neu'n debygol o ddigwydd neu ddigwydd eto, gall gyflwyno hysbysiad atal i'w gwneud hi'n ofynnol i'r unigolyn dan sylw atal neu gyfyngu ar y niwsans a/neu gymryd camau angenrheidiol i atal neu gyfyngu ar y niwsans hwnnw.

**Cwestiwn 11**: *Ydych chi wedi defnyddio darpariaethau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (neu'n gwybod am achos lle y cawsant eu defnyddio) i ddod o hyd i ateb i'r broblem o bori anghyfreithlon / gadael ceffylau a merlod ac, os felly, a gafwyd y canlyniad gofynnol?*

*YDW …………*

*NAC YDW …………..*

*DATRYSWYD Y BROBLEM YN RHANNOL ……………………*

*Os ydych chi wedi ateb 'Nac ydw' neu 'Datryswyd y broblem yn rhannol', nodwch beth oedd y problemau, pam na lwyddwyd i ddatrys y broblem yn llawn a beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i ddarparu ateb priodol?*

Ddim yn berthnasol

**Deddfau Lleol i'w defnyddio gan Awdurdodau Unedol –** Mae yna ddarpariaethau atafaelu anifeiliaid crwydr o fewn Deddf Morgannwg Ganol 1987, Deddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984 a Deddf Gorllewin Morgannwg 1987 sy'n caniatáu i awdurdodau lleol a gwmpesir gan y Deddfau hyn atafaelu, powndio a gwaredu ceffylau y deuir o hyd iddynt ar dir yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hynny. Ar ôl i rai hysbysiadau ac amserlenni cychwynnol ddod i ben, ac 14 diwrnod arall ar ôl y dyddiad y dylai'r perchennog fod wedi hawlio'r anifeiliaid a thalu ei dreuliau, gall yr awdurdod lleol ddifa'r anifail mewn ffordd drugarog.

**Cwestiwn 12**: *Ydych chi wedi defnyddio’r darpariaethau anifeiliaid crwydr o dan y Deddfau Lleol (Caerdydd, Morgannwg Ganol, Gorllewin Morgannwg) yn eich ardal i fynd i’r afael â’r broblem o bori anghyfreithlon / gadael ceffylau a merlod ac, os felly, a gafwyd y canlyniad gofynnol?*

*YDW …………*

*NAC YDW …………..*

*DATRYSWYD Y BROBLEM YN RHANNOL ……………………*

*Os ydych chi wedi ateb ‘Nac ydw’ neu ‘Datryswyd y broblem yn rhannol’, nodwch beth oedd y problemau, pam na lwyddwyd i ddatrys y broblem yn llawn a beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i ddarparu ateb priodol?*

Ddim yn berthnasol

**Cwestiwn 13**: *Ydych chi wedi defnyddio’r darpariaethau anifeiliaid crwydr o dan y Deddfau Lleol (Caerdydd, Morgannwg Ganol, Gorllewin Morgannwg) i ddifa ceffylau y daethpwyd o hyd iddynt o ganlyniad i bori anghyfreithlon / gadael ceffylau a merlod?*

*YDW …………*

*NAC YDW …………..*

*Os ydych chi wedi ateb ‘Nac ydw’, dywedwch pam. Os ydych chi wedi ateb ‘Ydw’, rhowch fanylion.*

Ddim yn berthnasol

**Cwestiwn 14**: *Os ydych chi'n ymateb ar hyn o bryd ar ran awdurdod lleol nad oes ganddo fynediad i'r Deddfau Lleol a ddisgrifir neu'n ymateb fel ymgynghorai arall, heb fod yn gysylltiedig ag awdurdod lleol, rhowch eich barn ar y posibilrwydd o ddifa ceffylau.*

Ddim yn berthnasol

**Cwestiwn 15**: *Yn eich barn chi, a yw'r darpariaethau atafaelu anifeiliaid crwydr o dan y Deddfau Lleol hyn (Caerdydd, Morgannwg Ganol, Gorllewin Morgannwg) yn briodol i fynd i'r afael â'r broblem o bori anghyfreithlon / gadael ceffylau a merlod? Os na chredwch eu bod yn briodol, beth sydd ar goll a sut y gall y newidiadau a awgrymwch effeithio ar y sefyllfa?*

Ddim yn berthnasol

**Cwestiwn 16**: *Cydnabyddir nad yw'r darpariaethau atafaelu anifeiliaid crwydr o dan y Deddfau Lleol (Caerdydd, Morgannwg Ganol, Gorllewin Morgannwg) ar gael i bob awdurdod lleol yng Nghymru. A ddylai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn y darpariaethau pori anghyfreithlon hynny i Gymru gyfan?*

*DYLAI …………….*

*NA DDYLAI ……………..*

*Os ydych chi wedi ateb 'Na ddylai', pam felly a beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i ddarparu ateb priodol?*

Ddim yn berthnasol

**Cwestiwn 17**: *Yn eich barn chi, a oes angen deddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig neu a fyddai'n ddigon i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau manwl ar gyfer awdurdodau gorfodi.*

*Nodwch eich dewis a pham.*

1. I CNC, lle caiff nodweddion arbennig ar SoDdGA eu difrodi, y broblem fwyaf yw dod o hyd i berchennog y ceffylau/merlod a thalu'r costau. Mae angen eglurder hefyd ynglŷn ag:
    a. Pwy sy'n gyfrifol am glirio'r ceffylau/merlod o'r SoDdGA – ai perchennog y tir neu CNC?
    b. Pwy ddylai ysgwyddo'r gost o glirio'r anifeiliaid sydd ar y SoDdGA? Gall y costau porthiant a milfeddyg fod yn sylweddol os oes nifer fawr o anifeiliaid, ac nid oes modd adennill y costau oni bai a nes i lys ddyfarnu costau,

2. Ni ddylid cyfyngu'r canllawiau i awdurdodau gorfodi. Mae angen canllawiau ar eraill, megis rheolwyr safleoedd, yn ogystal â pherchenogion/meddianwyr tir, ar sut i ganfod atebion i'r broblem hon ac â phwy y gallant gysylltu i gael cyngor.

**Cwestiwn 18:** *A oes gennych chi unrhyw wybodaeth / syniadau eraill a allai helpu Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i ateb hirdymor i'r broblem o bori anghyfreithlon / gadael ceffylau a merlod?*

Mae angen deall y broblem waelodol sy'n achosi'r broblem gadael ceffylau a merlod a phori anghyfreithlon er mwyn canfod atebion tymor hir, e.e. deall sut mae'r diwydiant ceffylau "cost isel" yn gweithio a sut mae bridwyr a gwerthwyr yn rheoli'u ceffylau a'u merlod, yn cynnwys deall beth yw'r ffactorau allweddol sy'n eu hysgogi i bori'n anghyfreithlon ar hyn o bryd. Rydym yn deall bod sglodion wedi cael eu gosod mewn anifeiliaid sydd wedi'u gadael gan yr Awdurdod Unedol a'u bod wedi cael eu prynu'n rhad wedyn, am lai na chost gosod sglodyn, gan y perchennog gwreiddiol, a oedd yn eu gwerthu wedyn i'w hallforio i'r UE. Mae'r farchnad hon wedi chwalu erbyn hyn ac wedi arwain at y broblem gyfredol o adael ceffylau/merlod. Mae'r problemau lles a difrod i gynefinoedd yn waeth yn y gaeaf pan nad oes fawr o borfa i gynnal yr anifeiliaid ac mae'r tir yn dioddef mwy o gael ei or-sathru..

Mae Swyddogion Troseddau Bywyd Gwyllt a'r Amgylchedd CNC ar secondiad i'n helpu i fynd i'r afael â phroblemau fel ceffylau/merlod wedi'u gadael ac rydym yn ffodus fod gan Swyddog Rhanbarth y De, Mark Goulding, sydd ar secondiad o Heddlu De Cymru, brofiad blaenorol sylweddol gyda'r mater hwn. Mae Mark wedi helpu i sefydlu cynllun o'r enw 'Gate Safe' i ddelio â'r broblem hon ym Mro Morgannwg.

**Cwestiwn 19:** *Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i helpu i ddatrys y broblem o bori anghyfreithlon / gadael ceffylau a merlod. Os oes gennych chi unrhyw bryderon perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, gallwch eu nodi neu wneud sylwadau isod. Noder mai pori anghyfreithlon a gadael ceffylau a merlod yw pwnc yr ymgynghoriad hwn, felly nid yw'n ymwneud â bridio na lles cyffredinol ceffylau.*

# Ymgynghoriad ar adael ceffylau a merlod a phori anghyfreithlon: Dod o hyd i ateb hirdymor cynaliadwy i'r broblem yng Nghymru

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Buddug JOnes

Sefydliad (os yn berthnasol): Cyfoeth Naturiol Cymru

E-bost: Buddug.Jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Rhif ffôn: 01248 387291

Eich cyfeiriad: Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes y Ffynnon
Penrhos Garnedd
Bangor
LL57 2DW

## Cyfrinachedd

Gall ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi – ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur gyda'r ymateb, gan fod hyn yn helpu i ddangos bod yr ymarfer ymgynghori wedi'i gynnal yn briodol.

Os hoffech chi i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cadw'n gyfrinachol, ticiwch y bocs hwn: ☐

Os hoffech chi i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y bocs hwn: ☐